



Portffolio Trawsnewid Gweinyddu
Meddyginiaethau'n Ddigidol
Digital **Medicines** Transformation
Portfolio

Gwasanaeth Rhagnodi Electronig
Mae newidiadau cyffrous yn cael eu gwneud i'r
ffordd y caiff presgripsiynau eu rhoi yng Nghymru.



Gwasanaeth Rhagnodi Electronig
Newydd yn cael ei lansio yn y Rhyl



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Mae Canolfan Feddygol Lakeside, y Rhyl, yn cymryd rhan yn y prawf cyntaf i anfon presgripsiynau yn electronig.

Ni yw'r feddygfa gyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig (EPS) newydd i'ch helpu chi, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r amgylchedd. O Hydref 2023, bydd meddygon teulu yn y feddygfa hon yn gallu anfon eich presgripsiwn yn electronig (yn uniongyrchol trwy gyfrifiadur) i fferyllfa leol. Gan fod y system yn cael ei threialu, dim ond i gleifion sy'n defnyddio Fferyllfa Ffordd Wellington y mae'r gwasanaeth ar gael ar hyn o bryd.

Os ydych yn defnyddio fferyllfa arall, ni fydd unrhyw newid ar hyn o bryd a dylech gadw at y drefn arferol. Bydd y gwasanaeth rhagnodi electronig ar gael yn eich fferyllfa leol yn y dyfodol agos.

Os ydych fel arfer yn casglu eich meddyginiaeth o Fferyllfa Ffordd Wellington a hoffech ddefnyddio'r gwasanaeth rhagnodi electronig newydd, siaradwch â staff yno neu yma yn y feddygfa. Nid oes angen cyfrifiadur, gliniadur na ffôn clyfar arnoch i wneud hyn. Ni fydd eich gofal a'ch triniaeth yn newid mewn unrhyw ffordd. Yr unig wahaniaeth fydd y ffordd yr anfonir eich presgripsiwn i'r fferyllfa.

Mae presgripsiynau electronig yn rhad ac am ddim, yn ddiogel, yn fwy cyfleus a byddant yn arbed amser i chi. Bydd defnyddio EPS hefyd yn ein galluogi i symud tuag at GIG di-bapur gan arbed argraffu miloedd o ffurflenni bob blwyddyn, felly mae'n dda i'r amgylchedd hefyd!

Os byddwch fel arfer yn mynd i Fferyllfa Ffordd Wellington, byddwch yn gallu defnyddio'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig. Os ydych chi fel arfer yn defnyddio fferyllfa arall, ni fydd dim yn newid am y tro.



Mae'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig yn cynnig llawer o fanteision:

- Yn lle cael presgripsiwn papur, byddwn yn anfon eich presgripsiwn yn electronig i Fferyllfa Ffordd Wellington.
- Os byddwch chi'n cael ymgynghoriad dros y ffôn neu fideo, ni fydd yn rhaid i chi ymweld â'r feddygfa i gasglu presgripsiwn papur gan y bydd yn cael ei anfon yn electronig i Fferyllfa Ffordd Wellington.
- Bydd EPS yn caniatáu i'ch presgripsiwn gael ei olrhain, felly byddwn bob amser yn gwybod a yw yn y fferyllfa neu'r feddygfa.
- Yn achos presgripsiynau rheolaidd electronig, caniatewch yr un faint o amser i staff y fferyllfa baratoi eich meddyginiaeth ar ôl iddynt gael eich presgripsiwn electronig ag sydd ei angen i baratoi presgripsiynau papur.

Y gwasanaeth iawn i chi

Mae EPS yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o gleifion. I ddefnyddio'r gwasanaeth, os ydych fel arfer yn mynd i Fferyllfa Ffordd Wellington, siaradwch â'r staff yno neu yma yn y feddygfa a rhowch wybod iddynt eich bod am ddefnyddio'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig. Byddwn yn anfon eich holl bresgripsiynau yn y dyfodol yn electronig.

Cymryd eich meddyginiaeth

Dylai cleifion gyfeirio bob amser at y cyfarwyddiadau ar y pecyn meddyginiaeth a dilyn cyngor a roddir gan eich meddyg teulu a fferylllydd.

Archebu presgripsiynau rheolaidd

Dylech barhau i ail-archebu eich presgripsiynau rheolaidd yn yr un modd ag arfer. Byddant yn cael eu hanfon yn electronig i Fferyllfa Ffordd Wellington.

A allaf newid fy meddwl?

Mae'r gwasanaeth yn hyblyg iawn a gellir ei newid neu ei ganslo ar unrhyw adeg trwy ddweud wrth staff y fferyllfa. Bydd angen i chi ddweud wrthynt cyn i chi archebu eich presgripsiwn nesaf.

A yw'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig yn ddiogel ac yn gyfrinachol?

Ydy. Mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel. Dim ond aelodau awdurdodedig o staff sy'n gweithio yn ein practis meddyg teulu a'r fferyllfa fydd yn gallu gweld eich presgripsiwn electronig.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: Cadw gwybodaeth cleifion yn ddiogel -lechyd a Gofal Digidol Cymru (nhs.wales)

Mae'r daflen hon ar gael mewn ieithoedd eraill drwy e-bostio: DMTP@wales.nhs.uk

A hoffech chi wybod rhagor?

Mae rhagor o wybodaeth ar
gael ar wefan Iechyd a Gofal
Digidol Cymru:

<https://dhcw.nhs.wales/dmtp>



Canolfan Feddygol Lakeside

203 Ffordd Wellington, Rhyl,
Sir Ddinbych LL18 1LR
01745 344680
www.lakesidemedicalcentrerhyl.nhs.wales
lakeside.enquiries@wales.nhs.uk

Fferyllfa Ffordd Wellington:

108 Ffordd Wellington, Rhyl,
Sir Ddinbych LL18 1LH
01745 334156
[www.camellahealthcare.com/
wellington-road-pharmacy](http://www.camellahealthcare.com/wellington-road-pharmacy)
wellingtonroad@camellahealthcare.com



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Want to know more?

More information is available
on the Digital Health and
Care Wales website:

<https://dhcw.nhs.wales/dmtp>



Lakeside Medical Centre:

203 Wellington Road, Rhyl,
Denbighshire LL18 1LR
01745 344680
www.lakesidemedicalcentrerhyl.nhs.wales
lakeside.enquiries@wales.nhs.uk

Wellington Road Pharmacy:

108 Wellington Road, Rhyl,
Denbighshire LL18 1LH
01745 334156
[www.camellahealthcare.com/
wellington-road-pharmacy](http://www.camellahealthcare.com/wellington-road-pharmacy)
wellingtonroad@camellahealthcare.com



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

EPS brings lots of benefits:

- Instead of receiving a paper prescription, we will send your prescription electronically to Wellington Road Pharmacy.
- If you have a telephone or video consultation you will not have to visit the surgery to collect a paper prescription as it will be sent electronically to Wellington Road Pharmacy.
- EPS will allow your prescription to be tracked, so we will always know if it is at the pharmacy or GP surgery.
- For repeat electronic prescriptions please allow the same amount of time for the pharmacy to prepare your medication after they receive your electronic prescription as they needed to prepare paper prescriptions.

The right service for you

EPS is suitable for most patients. To use the service, if you usually go to Wellington Road Pharmacy simply talk to staff there or here at the surgery and let them know that you want to use the Electronic Prescription Service. We will send all your future prescriptions electronically.

Taking your medication

Patients should always refer to the instructions on the medication packaging and follow advice given - by your GP and pharmacist.

Ordering repeat prescriptions

You should continue to re-order your repeat prescriptions in the same way as normal. They will be sent electronically to Wellington Road Pharmacy.

Can I change my mind?

The service is very flexible and can be changed or cancelled at any time by telling staff at the pharmacy. You will need to tell them before your next prescription is due.

Is the Electronic Prescribing Service secure and confidential?

Yes. Your information is held safely and securely. Only authorised members of staff working in our GP practice and the pharmacy will be able to view your electronic prescription.

For more information visit:
Keeping patient information safe
-Digital Health and Care Wales ([nhs.wales](https://nhs.uk))

This leaflet is available in other languages by emailing: DMTP@wales.nhs.uk

The Lakeside Medical Centre, Rhyl, is taking part in the first test to send prescriptions electronically.

We are the first surgery in Wales to use the new Electronic Prescription Service (EPS) to help you, healthcare professionals and the environment. From Autumn 2023, GPs in this surgery will be able to send your prescription electronically (directly by computer) to a local pharmacy. To begin with, as the system is being trialed, the service is only available to patients who currently use Wellington Road Pharmacy. If you use another pharmacy, there will be no change at the moment and you should continue as normal. The electronic prescription service will be available at your local pharmacy in the near future.

If you usually collect your medication from Wellington Road Pharmacy and would like to use the new electronic prescription service, please speak to staff there or here at the surgery. You do not need a computer, laptop or smartphone to do this. Your care and treatment will not change in any way. The only difference will be the way your prescription(s) are sent to the pharmacy. Electronic prescriptions are free, secure, more convenient and will save you time. Using EPS will also allow us to move towards a paper-free NHS saving thousands of forms being printed every year, so it's good for the environment too!

If you usually go to Wellington Road Pharmacy, you will be able to use the Electronic Prescription Service. If you usually use another pharmacy, nothing will change for now.





Portffolio Trawsnewid Gweinyddu
Meddyginiaethau'n Ddigidol
Digital **Medicines** Transformation
Portfolio

The Electronic Prescription Service
**Exciting changes are being made to the
way prescriptions are issued in Wales.**



**New Electronic Prescription
Service launches in Rhyl**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

lechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales